OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2001 No. 275

## Rheoliadau Llaeth Ysgol (Cymru) 2001

### Dehongli

**2.**—(1) Yn y Rheoliadau hyn, oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall —

mae i "addysg feithrin" yr ystyr a roddir i "*nursery education*" gan adran 117 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(**1**);

mae i "addysg gynradd" yr ystyr a roddir i "*primary education*" gan adran 2(1) o Ddeddf Addysg 1996 (**2**));

ystyr "y Bwrdd" ("*the Board*") yw'r Bwrdd Ymyrraeth ar gyfer Cynhyrchion Amaethyddol a sefydlwyd o dan adran 6(1) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972;

ystyr "ceisydd" ("*claimant*") yw sefydliad addysgol cymwys neu awdurdod addysg lleol neu unrhyw gorff arall sy'n gwneud cais am gymorth Cymunedol neu gymorth gwladol mewn perthynas â chynhyrchion llaeth cymwys ar ran sefydliad addysgol cymwys;

ystyr "cost cyflenwi" ("*cost of supply*") mewn perthynas â chynhyrchion llaeth cymwys yw cost eu prynu plws swm y mae'n rhesymol i'r Cynulliad ystyried ei fod yn ddigonol i dalu costau caffael a gweinyddu cyflenwi'r cynhyrchion llaeth hynny;

ystyr "y costau gweddilliol" ("*the residual costs*" ) yw'r costau cyflenwi, a dynnir gan brynwr mewn cysylltiad â chyflenwi cynhyrchion llaeth cymwys i sefydliad addysgol cymwys, llai unrhyw gymorth Cymunedol a chymorth gwladol a gyfrifir drwy gyfeirio at reoliad 4(2)(d) a all gael ei roi mewn perthynas â'r cyflenwi hwnnw;

mae i "cyfnod allweddol 2" yr ystyr a roddir i "*key stage 2*" gan adran 355 o Ddeddf Addysg 1996;

ystyr "cymorth Cymunedol" ("*Community aid*") yw cymorth y Gymuned Ewropeaidd sy'n cael ei roi yn unol ag Erthygl 14 o Reoliad y Cyngor;

ystyr "cymorth gwladol" ("*national aid*") yw cymorth a roddir gan y Cynulliad Cenedlaethol o dan y Rheoliadau hyn yn unol ag Erthygl 14(2) o Reoliad y Cyngor;

ystyr "cynhyrchion llaeth cymwys" ("*qualifying milk products*") yw'r llaeth a'r cynhyrchion llaeth a restrir yn yr Atodiad i Reoliad y Comisiwn fel cynhyrchion sy'n gymwys ar gyfer cymorth Cymunedol;

ystyr "cynllun cymhorthdal y Gymuned Ewropeaidd" ("*the European Community subsidy scheme*" ) yw cynllun y Gymuned Ewropeaidd ar gyfer cyflenwi llaeth a chynhyrchion llaeth cymorthdaledig i ddisgyblion sy'n mynychu sefydliadau addysgol fel y mae wedi'i sefydlu gan Reoliad y Cyngor a Rheoliad y Comisiwn ac yn cael ei weinyddu ym Mhrydain Fawr gan y Bwrdd;

ystyr "y Cynulliad Cenedlaethol" ("*the National Assembly*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

ystyr "disgyblion cymwys" ("*eligible pupils*") yw disgyblion sy'n derbyn addysg gynradd heblaw'r rhai sydd yng nghyfnod allweddol 2 neu'r rhai sy'n derbyn addysg feithrin;

(**1**) 1998 p.31.
(**2**) 1996.p.56

ystyr "yr hyn sy'n gyfwerth â llaeth" ("*milk equivalent*") yw'r swm a bennir yn Erthygl 5(2) o Reoliad y Comisiwn fel swm sy'n cynrychioli'r cynnwys sy'n gyfwerth â llaeth mewn cynhyrchion llaeth penodol;

ystyr "y rheolau Cymunedol" ("*the Community rules*") yw'r rheolau a bennir gan Reoliad y Cyngor a Rheoliad y Comisiwn ynghylch darparu llaeth a chynhyrchion llaeth cymorthdaledig i ddisgyblion sy'n mynychu sefydliadau addysgol;

ystyr "Rheoliad y Comisiwn" ("*the Commission Regulation*" ) yw Rheoliad y Comisiwn (EC) 2707/2000 sy'n nodi rheolau manwl ar gyfer cymhwyso Rheoliad y Cyngor (EC) 1255/1999 mewn perthynas â chymorth Cymunedol ar gyfer cyflenwi llaeth a chynhyrchion llaeth penodol i ddisgyblion mewn sefydliadau addysgol(**3**);

ystyr "Rheoliad y Cyngor" ("*the Council Regulation*") yw Rheoliad y Cyngor (EC) 1255/1999 ar gyd-drefnu'r farchnad mewn llaeth a chynhyrchion llaeth(**4**); ac

ystyr "sefydliad addysgol cymwys" ("*qualifying educational establishment*") yw sefydliad sy'n darparu addysg gynradd ac sydd wedi'i gofrestru, naill ai'n uniongyrchol neu drwy ei awdurdod addysg lleol neu gorff arall, gyda'r Bwrdd, er mwyn cymryd rhan yng nghynllun cymhorthdal y Gymuned Ewropeaidd.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn at offeryn Cymunedol yn gyfeiriad at yr offeryn hwnnw fel y'i diwygiwyd ar y dyddiad y gwneir y Rheoliadau hyn.

(3) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn at reoliad â rhif yn gyfeiriad at y rheoliad sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Rheoliadau hyn.

(**3**) OJ Rhif L311, 12.12.2000, t.37.
(**4**) OJ Rhif L160, 26.6.1999, t.48.